


Adroddiad am ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr – mis Hydref 2025



Adroddiad Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru Rhif: 945

Awdur: Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynnwys

Crynodeb gweithredol

1. Cyflwyniad
2. Esblygiad ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol yn 2024 i ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn 2025
3. Disgrifiad trosolwg o ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr
4. Disgrifiad manwl o ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr

Ffigurau

Ffigur 1 Prif gynllun y mapiau manwl

Atodiadau

Atodiad 1: Ystyriaethau manwl ar gyfer gosod ffiniau

Atodiad 2: Ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr – Prif gynllun a darnau manwl o fapiau

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu disgrifiad a map manwl o'r Parc Cenedlaethol Glyndŵr arfaethedig. Mae maint a lleoliad y ffin yn y parc cenedlaethol a gyflwynir yma yn gynnig a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus statudol ym mis Hydref / mis Tachwedd 2025.

Mae'r adroddiad yn cymryd canfyddiadau adroddiad yr Asesiad Terfynol o Dir i'w Ddynodi; adroddiad rhif 938 Cyfoeth Naturiol Cymru (tystiolaeth gryno ar harddwch naturiol, cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored o fewn ardal gydlynol i'w dynodi) ac yn cymhwyso ystyriaethau manwl ar gyfer gosod ffiniau (nodyn canllaw gweithdrefnol Cyfoeth Naturiol Cymru GN 010 a chonfensiynau mapio ffiniau'r Arolwg Ordnans) wrth benderfynu ble i dynnu ffin y parc cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r disgrifiad a'r mapiau hyn yn ofyniad o'r broses ddynodi, ac maent hefyd yn cynorthwyo amrywiaeth o fuddiannau (perchnogaeth eiddo a thir; rheoli datblygiad; polisi defnydd tir, cynlluniau, prosiectau; cyfleustodau, ac ati) i ddeall tir o fewn a thir y tu allan i'r ardal ddynodedig arfaethedig.

Mae disgrifiad y ffin yn rhedeg ar hyd ymyl yr ardal yn glocwedd, gan ddechrau a gorffen ger Rhuthun, ac y mae wedi'i rannu'n bump adran:

- Adran 1: Llanfair Dyffryn Clwyd i Felin y Castell (Dyffryn Ceiriog)
- Adran 2: Melin y Castell (Dyffryn Ceiriog) i Ben-y-bont Llanerch Emrys (Dyffryn Tanat)
- Adran 3: Pen-y-bont Llanerch Emrys (Dyffryn Tanat) i Barc Cenedlaethol Eryri
- Adran 4: Parc Cenedlaethol Eryri i Landrillo (Dyffryn Dyfrdwy Uchaf)
- Adran 5: Llandrillo (Dyffryn Dyfrdwy Uchaf) i Lanfair Dyffryn Clwyd (Dyffryn Clwyd)

Mae cyflwyniad pob adran yn rhoi trosolwg o'r ffin yn ddaearyddol. Yna, mae'r disgrifiad manwl yn egluro'r nodweddion ffisegol ar lawr gwlad y mae'r ffin yn eu dilyn.

Mae Atodiad 1 yn nodi'r ystyriaethau manwl ar gyfer gosod ffiniau a gymhwyswyd, ac Atodiad 2 yn mapio'n fanwl ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr – o fewn 22 map a phrif gynllun i gynorthwyo mordwyo.

Yn dilyn ymgynghoriad statudol 2025, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu'r sylwadau a gyflwynwyd ac yn cadarnhau sut y bydd yn llywio'r cam nesaf yn y broses ddynodi. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn adroddiad adborth ymgynghoriad statudol ddechrau 2026.

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi disgrifiad manwl o leoliad y ffin ar lawr gwlad ar gyfer ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr, ac fe'i hategir gan fapiau manwl o'r ffin.

Mae'r adroddiad hwn yn addasiad o'r Adroddiad am Ffin yr Ardal Ymgeisiol yn Rhagfyr 2024, a baratowyd gan Gillespies mewn cydweithrediad â Countryside, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau o ganlyniad i adborth ymgynghoriad cyhoeddus 2024. Mae hyn wedi arwain at y ffin arfaethedig ar gyfer Parc Cenedlaethol Glyndŵr, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Mae mapiau manwl o'r ffin ar raddfa 1:25,000 (Mapiau 1 i 22) a phrif fap wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

2. Esblygiad ardal ymgeisiol y parc cenedlaethol yn 2024 i ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn 2025

Rhannodd adroddiad gwerthuso Gillespies yn 2024 yr ardal asesu yn 32 o unedau gwerthuso er mwyn asesu'r meini prawf dynodi statudol ar gyfer harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Mae Canllawiau Gweithdrefnol Cyfoeth Naturiol Cymru (2022): Dynodiad Tirwedd Statudol (GN 010) yn egluro sut y dylid asesu harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Cyfunwyd ardaloedd gwerthuso a oedd yn bodloni'r meini prawf i ffurfio cwmпас gofodol yr ardal ymgeisiol.

Wrth lunio uned gydlynol o dirwedd i'w dynodi, ystyriwyd y cynsail a nodwyd yn adroddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol ac arolygwyr cynllunio ar gyfer prosiectau dynodi tirwedd yn y gorffennol ac egwyddor 'golchi drosodd'. Mae hyn yn caniatáu i ardaloedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yn llawn i gael eu cynnwys os ydynt yn rhan o dirwedd gydlynol ehangach sy'n gwneud hynny.

Mae canllawiau gweithdrefnol Cyfoeth Naturiol Cymru GN 010 hefyd yn darparu canllawiau ar osod ffiniau manwl ar gyfer tirweddau dynodedig. Cymhwyswyd hyn, ar y cyd â chonfensiynau mapio ffiniau'r Arolwg Ordnans, wrth fapio'r ffin (gweler Atodiad 1).

- Arweiniodd adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr ardal ymgeisiol ddiwedd 2024 at adolygu maint y parc cenedlaethol arfaethedig, er mwyn bodloni meini prawf y dynodiad statudol (harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored), a cheisio mynd i'r afael â phryderon a nodwyd yn y sylwadau a ddaeth i law. Darparodd yr adroddiad Buddion Natur dystiolaeth bellach o ardaloedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt a threftadaeth naturiol (un o'r pum ffactor sy'n cyfrannu at harddwch naturiol) ac ystyriwyd hyn yn y dadansoddiad.
- O ganlyniad i'r broses hon, mae ffin y parc cenedlaethol arfaethedig:
- yn awr yn cynnwys Twyni Gronant a Thalacre;

- wedi'i mireinio i ddal ardal gydlynol o harddwch naturiol yn well o fewn ucheldiroedd yr ardal, dyffrynnoedd croestoriadol ac ymyl arfordirol;
- yn eithrio ardal fawr o iseldiroedd sefydlog o fewn Powys.
- Mae ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn cynrychioli safon uwch ar gyfer bodloni'r meini prawf statudol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod y diwygiadau'n gwella cydlyniant ac amddiffynadwyedd y ffin arfaethedig ac yn gwella'r cydlyniant â gofynion dynodi statudol.
- Mae'r adroddiadau canlynol wedi llywio esblygiad maint a ffin y parc cenedlaethol:
- Adroddiad Gwerthuso Parc Cenedlaethol Arfaethedig Cymru (2024) – Gillespie mewn cydweithrediad â Countryside a Fiona Fyfe Associates
- Adroddiad Asesiad Terfynol o Dir i'w Ddynodi (2025) – Adroddiad Rhif 938 Cyfoeth Naturiol Cymru
- Mae'r adroddiad olaf yn nodi'r dadansoddiad a'r cyfiawnhad dros y newidiadau diweddaraf o ran y ffin – ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2025 a ddeilliodd o hynny.

3. Disgrifiad cyffredinol o ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr

- Mae'r adran hon yn disgrifio ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn amlinellol, gan ddechrau ar ei ymyl gorllewinol ger Rhuthun ac yn symud yn olynol mewn cyfeiriad clocwedd:
- Mae ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn dilyn ffin Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sy'n bodoli eisoes, ar hyd ei hymylon gorllewinol, gogleddol a dwyreiniol – yn fras rhwng Rhuthun, Prestatyn a'r Waun, gan wyro ym mhwynt mwyaf gogleddol y dirwedd genedlaethol i gynnwys twyni Gronant a Thalacre. Gan barhau tua'r de, mae'r ffin yn dilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr.
- Lle mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn cwrdd â'r ffordd B4580 o fewn Dyffryn Tanat, mae ffin y parc cenedlaethol arfaethedig yn dilyn y B4580 tua'r gorllewin i Bentrefelin.
- Yma, mae'r ffin yn troi tua'r gogledd tuag at Moelfre cyn troi tua'r gorllewin gan ddilyn ffiniau caeau a lonydd ar hyd lethrau isaf godreion Mynyddoedd y Berwyn nes cyrraedd Pen-y-bont-fawr. Mae'r ffin yn rhedeg ar hyd ochr ogleddol a gorllewinol y pentref ond heb ei gynnwys.
- Yna, mae'r ffin yn dilyn y ffordd B4369 tua'r de-orllewin ar hyd Cwm Hirnant i Lanwddyn, lle nad yw'r pentref wedi'i gynnwys.
- Mae'r ffin yn troi tua'r de ar hyd lôn tuag at Bont Llogel, gan ymuno â'r B4369 am ychydig cyn dilyn ymylon coediog cul afon Efyrrwy i gynnwys maes parcio ymwelwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mhont Llogel.

- Mae'r ffin yn ailymuno â'r B4369 ac yn parhau tua'r de-orllewin i'r dwyrain o Goedwig Dyfnant (wedi'i chynnwys) nes cwrdd â'r ffordd A458 ger Llangadfan, lle mae'n troi tua'r gorllewin ar hyd Dyffryn Banwy.
- Mae clos bach o breswylfeydd ger ochr y ffordd ac ysgol (Ysgol Cwm Banwy) i'r gogledd o'r A458 heb eu cynnwys o fewn y ffin. Yn yr un modd, mae pentref Y Foel heb ei gynnwys.
- Mae'r ffin yn parhau ar hyd yr A458, gan groesi'r cefndeuddwr ym Mwlich y Fedwen, gan barhau i Gwm Dugoed am ychydig bellter, nes cwrdd â ffiniau dwyreiniol Parc Cenedlaethol Eryri.
- Yma, mae ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn troi tua'r gogledd gan ddilyn ffin Parc Cenedlaethol Eryri, i ddechrau ar hyd Nant-y-dugoed ac yna, uchafbwyntiau'r Berwyn i ymuno â'r ffordd B4391, a ddilynir wedyn tua'r gogledd-orllewin i Ddyffryn Dyfrdwy Uchaf yn Llandderfel – i'r dwyrain o'r Bala.
- Mae'r ffin yn croesi mewn man cul o Ddyffryn Dyfrdwy ac yn dilyn ymylon coetir a ffiniau caeau ar hyd orwel gogleddol y dyffryn. Mae Llandderfel a'i leoliad ar ochr y dyffryn wedi'u cynnwys.
- Mae'r ffin yn dilyn lôn sy'n disgyn tua'r de-ddwyrain i Ddyffryn Dyfrdwy, gan groesi ym Mhont Cilan, cyn dilyn ffiniau caeau a lonydd o amgylch ochrau gorllewinol, deheuol a dwyreiniol Llandrillo cyn ymuno â'r ffordd B4401. Nid yw'r pentref wedi'i gynnwys.
- Yma, mae'r ffin yn dilyn y B4401 tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd odre Mynyddoedd y Berwyn. Nid yw pentref Cynwyd wedi'i gynnwys.
- Ychydig i'r gogledd o Gynwyd mae'r ffin yn ailymuno â llinell Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ac yn ei dilyn i Gorwen. Mae Corwen wedi'i chynnwys, a Chlawdd Poncen / Trewyn Fawr heb eu cynnwys.
- Dilynir ffin y dirwedd genedlaethol, gan fynd islaw Caer Drewyn, i mewn i Ddyffryn Afon Morwynion cyn ymuno â'r ffordd A5104 am ychydig.
- Yn y fan hon, mae ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn ymadael â llinell ffin y dirwedd genedlaethol ac yn troi tua'r gogledd, gan ddilyn ffiniau caeau, ymylon coetiroedd a rhannau o lonydd tuag at Lanelidan. Nid yw'r pentref wedi'i gynnwys. Mae cydrannau'r maes hamdden, y dafarn a'r eglwys yn yr ardal gadwraeth wedi'u cynnwys.
- Mae'r ffin yn parhau tua'r gogledd ar hyd lôn, gan ymuno â'r ffordd A494 ym Mhlas Nantclwyd. Dilynir yr A494 tua'r gogledd i bentref Pwll-glas, lle mae aneddiadau ar y naill ochr a'r llall i'r ffordd heb eu cynnwys. Mae darn o lethr coediog i'r gogledd o'r briffordd wedi'i gynnwys, gan ddilyn ffin safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Craig Adwy-wynt.
- Mae'r ffin yn ymadael â'r A494, gan droi tua'r dwyrain i groesi rhannau deheuol Dyffryn Clwyd ar hyd lôn, heb gynnwys pentref Llanfair Dyffryn Clwyd, cyn ailymuno â ffin Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i'r de-ddwyrain o Rhuthun. Mae hyn yn cloi cylch ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr.

4. Disgrifiad manwl o ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr

Er mwyn cynorthwyo llywio o amgylch y ffin a disgrifiadau mynediad i leoliadau penodol, mae'r ffin wedi'i rhannu'n adrannau fel a ganlyn:

Adran 1: Llanfair Dyffryn Clwyd i Felin y Castell (Dyffryn Ceiriog)


Adran 2: Melin y Castell (Dyffryn Ceiriog) i Ben-y-bont Llanerch Emrys (Dyffryn Tanat)

Adran 3: Pen-y-bont Llanerch Emrys (Dyffryn Tanat) i Barc Cenedlaethol Eryri

Adran 4: Parc Cenedlaethol Eryri i Landrillo (Dyffryn Dyfrdwy Uchaf)

Adran 5: Llandrillo (Dyffryn Dyfrdwy Uchaf) i Lanfair Dyffryn Clwyd (Dyffryn Clwyd)

Ffigur 1 Prif gynllun y mapiau manwl (gweler y mapiau manwl yn Atodiad 2)



"Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000849444. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. © Getmapping Plc a Bluesky International Limited [2025]."

Mae'r testun disgrifiadol yn dechrau gyda throsolwg byr o gwmpas yr adran a'r rhesymeg dros ei hamlinelliad. Rhestrir mapiau ffiniau perthnasol 1:25,000 (Mapiau 1–22) a dylid eu defnyddio ochr yn ochr â'r testun (gweler Atodiad 2).

Yna, disgrifir ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr yn fanwl, gyda'r naratif yn symud ymlaen yn olynol i gyfeiriad clocwedd o amgylch y ffin.

Er mwyn gwella darllenadwyedd, mae'r disgrifiadau wedi'u rhannu'n adrannau byrrach. Drwy gydol y testun hwn, dylid deall unrhyw sôn am 'y ffin' fel cyfeiriad at 'ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr'. Mae unrhyw sôn am 'yr asesiad' yn cyfeirio at yr adroddiadau gan Gillespie a Cyfoeth Naturiol Cymru a restrir uchod.

Adran 1: Llanfair Dyffryn Clwyd i Felin y Castell (Dyffryn Ceiriog)

Darnau o fapiau 21, 22, 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8

Cyflwyniad

Mae'r ffin yn dilyn ffin bresennol y dirwedd genedlaethol ar hyd ei hymyl gorllewinol rhwng Rhuthun a Phrestatyn. Yna, mae'r ffin yn ymadael â ffin y dirwedd genedlaethol gan droi i'r gogledd i gynnwys rhannau distyll arfordirol Twyni Talacre a Gronant a morfa heli yn y Parlwr Du. Mae cwrs golff Prestatyn a chaeau iseldir yn cysylltu'r dirwedd arfordirol yn ôl â ffin y dirwedd genedlaethol yng Ngronant. Mae'r ffin yn yr ardal hon yn olrhain llinell o amgylch cefn gwlad agored ond heb gynnwys aneddiadau, datblygiadau a pharciau carafanau. Yna, mae'r ffin yn parhau tua'r de gan ddilyn ffin bresennol y dirwedd genedlaethol i'r Waun cyn ymadael i gynnwys traphont ddŵr y Waun cyn mynd i mewn i Ddyffryn Ceiriog hyd at Felin y Castell.

Cadarnhaodd yr asesiad, a lywiwyd gan waith maes manwl, fod ffin bresennol y dirwedd genedlaethol yn parhau i fod yn llinell gadarn i'w dilyn, a bod cynnwys Twyni Gronant a Thalacre yn dwyn ynghyd dirwedd o harddwch naturiol a chyfleoedd digonol ar gyfer hamdden awyr agored i fodloni'r meini prawf dynodi.

Disgrifiad manwl o'r ffin

Llanfair Dyffryn Clwyd i Brestatyn

Mae'r rhan hon yn cychwyn i'r de o dref sirol Rhuthun a thua un cilometr i'r gogledd-ddwyrain o bentref Llanfair Dyffryn Clwyd ar ffin y dirwedd genedlaethol wrth odre Bryniau Clwyd.

Mae'r ffin yn dilyn y ffordd B5429 ar hyd ymyl dwyreiniol y ffordd, tua'r gogledd cyn troi tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd yr A494 ym Mhentre a pharhau ar hyd y briffordd i Lanbedr Dyffryn Clwyd, lle mae'n troi tua'r gogledd-orllewin oddi ar yr A494 gan ddilyn ymyl gorllewinol yr anheddiad cyn ymuno â'r B5429. Mae'n dilyn y ffordd hon i'r gogledd-orllewin allan o Lanbedr Dyffryn Clwyd ac yna i Heol Llanbedr. Ac eithrio datblygiad preswyl diweddar ym Maes Famau, mae'r pentref yn cael ei gynnwys y tu fewn i'r ffin.

Gan barhau ar hyd odre Bryniau Clwyd mae'r ffin yn ymestyn ar hyd Ffordd Llanbedr gan fynd trwy'r clwstwr bach o eiddo yn Hirwaen lle mae'n cael ei adnabod fel Ffordd y

Goedwig. Mae'r ffin yn parhau ar hyd Ffordd y Goedwig gan groesi Croesffordd Cyffion a mynd trwy Langynhafal lle mae'r ffordd yn dod yn Ffordd Prenol ac yn parhau ar y ffordd hon i Langwyfan.

Mae'r ffin yn parhau tua'r gogledd ar hyd y lôn i'r gorllewin o Barc Highfield ac yna'n dilyn ffiniau caeau a ffin y dirwedd genedlaethol mewn cyfeiriad gogledd-orllewinol eang ar draws ardal o gaeau ar oledf rhwng Bryniau Clwyd a thirweddau ffermio is Dyffryn Clwyd.

Ger Cae'r Fedwen mae'r ffin yn ailymuno â'r rhwydwaith ffyrdd lleol, gan droi tua'r gorllewin am ychydig ar hyd un o'r lonydd sy'n rhedeg i lawr o Fryniau Clwyd ac ymuno â'r B5429 wrth iddi anelu tua'r gogledd i Aberchwiler.

I'r de o Aberchwiler mae'r ffin yn gwyro i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol i ffwrdd o'r B5429 ac yn dilyn hawl tramwy cyhoeddus cyn ymuno â lonydd lleol a darn byr o Lwybr Clawdd Offa i'r gogledd tuag at Bodfari. Ychydig cyn y pentref mae'r ffin yn rhedeg tua'r gorllewin ar hyd ddarn byr o reilffordd segur cyn troi oddi ar y rheilffordd a mynd o amgylch ymyl deheuol Ysgol Gynradd Bodfari. O'r fan hon mae'n rhedeg i'r gogledd, gan groesi Teras Derwen ac yn ailymuno â'r B5429 i'r gogledd o Fodfari.

I'r gogledd o'r pentref mae'r ffin yn ymuno â'r B5429 ac yn parhau i gyfeiriad gogledd-orllewinol gan ddilyn y ffordd a chroesi sawl dyffryn rhychog ar lethrau isaf Bryniau Clwyd. Mae'r ffin yn parhau i ddilyn y B5429, gan fynd trwy bentref Tremeirchion. Mae'r anheddiad hyn i'r dwyrain o'r lôn wedi'i gynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig. Nid yw'r anheddiad o'r ugeinfed ganrif i'r gorllewin o'r lôn wedi'i gynnwys. I'r gogledd o'r pentref mae'r ffin yn anelu tua'r gogledd heibio i eiddo ar ochr y ffordd a ffermydd cyn croesi Gwibffordd Gogledd Cymru (A55) yn Rhualt a mynd i'r dwyrain o'r pentref, sydd y tu allan i'r ffin.

Gan barhau i ddilyn ffin y dirwedd genedlaethol tua'r gogledd, mae'r ffin yn ymuno â Lwybr Clawdd Offa am ychydig ac yn dilyn Ffordd Cwm ar draws dyffryn coediog Cwm sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin.

Mae'r ffin yn parhau tua'r gogledd ar hyd Ffordd Cwm i Ddyserth islaw lethrau serth y Foel a Moel Hiraddug, lle mae'n gwyro oddi ar y ffordd i ddilyn hawl tramwy gyhoeddus ar hyd ffiniau cefn eiddo sy'n wynebu Ffordd Cwm. Yn Ffordd Foel Isaf, mae'r ffin yn troi'n sydyn tua'r dwyrain i godi ar hyd lethrau serth agored y Foel a Moel Hiraddug ac yn osgoi chwarel segur ar ymyl deheuol y pentref.

Gan groesi tir mynediad agored, mae'r ffin yn ymestyn i'r dwyrain i ffin y plwyf sifil ar ochr ddwyreiniol Bryngaer Moel Hiraddug. Mae'n ei dilyn i'r gogledd i Ffordd Hiraddug, lle y mae'n troi i'r gogledd-orllewin gan ddilyn y ffordd hon cyn gwyro i'r gogledd ar hyd hawl tramwy gyhoeddus i'r dwyrain o eiddo ym Maes Hiraddug ac ymuno â Thaith Clwyd ar yr A5151.

Ar ôl croesi'r A5151 mae'r ffin yn parhau i ddilyn Thaith Clwyd ar hyd ran o Lwybr Prestatyn–Dyserth (llinell reilffordd segur) sy'n mynd o amgylch troed orllewinol Graig Fawr gyda rhaeadr Dyserth a'r pentref isaf y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig i'r gorllewin. Yng Ngallt Melyd mae'r ffin yn gwyro tua'r dwyrain ac i ffwrdd o lwybr Thaith Clwyd ond mae'n parhau i ddilyn ffin y dirwedd genedlaethol o amgylch troed gogleddol a dwyreiniol Graig Fawr. Mae'r ffin yn troi i gyfeiriad mwy gogledd-ddwyreiniol gan ddilyn llethr isaf y tir sy'n codi'n serth yn Nhan-yr-Allt a llethr y bryn uwchlaw

Prestatyn. Nid yw anheddiad Gallt Melyd a Phrestatyn wedi'u cynnwys yn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Prestatyn i Wibffordd Gogledd Cymru (A55)

Yn ymylon dwyreiniol Prestatyn mae'r ffin yn troi tua'r gogledd gan groesi Ffordd Gronant a Ffordd Prestatyn, sef y ffordd A545, o amgylch ac heb gynnwys cwrtil Neuadd Nant, cyn dilyn y rheilffordd am ychydig tua'r dwyrain ac yna tua'r gogledd o amgylch parc busnes oddi ar Warren Drive. Mae'r ffin yn croesi Warren Drive tua'r gogledd i Gwter Prestatyn, nodwedd ddiffiniedig ar y tir sydd wedi'i osod yn ôl o ymyl agored yr anheddiad a chaeau ceffylau ar hyd Warren Drive. Dilynir Gwter Prestatyn i Rodfa Barkby, sydd wedyn yn cael ei dilyn tua'r gogledd i'r arfordir. Nid yw'r ffin yn cynnwys meysydd parcio Traeth Barkby.

Mae'r ffin yn ymestyn allan at lefel distyll cymedrig y môr, a nodir gan bostyn yn y môr, cyn troi tua'r dwyrain ar hyd rannau distyll traeth / traethlin Twyni Gronant a Thalacre. Ger goleudy'r Parlwr Du, sy'n nodi aber afon Dyfrdwy, mae'r ffin yn troi tua'r de nes iddi gael ei rhyngdorri gan Gwter Tŷ'r Llifddor. Dilynir ei gwrs troellog yn ôl i'r lan tuag at derfynfa nwy'r Parlwr Du. Mae'r ffin yn troi tua'r gogledd i gwrdd â Llwybr Arfordir Cymru wrth dro tynn wedi'i farcio gan fwi / cerflun. Darn 'am y tro' o'r ffin yw hwn oherwydd prosesau naturiol.

Mae'r ffin yn parhau tua'r gogledd ar hyd Lwybr Arfordir Cymru hyd at y pwynt lle mae'n cwrdd â phen gogleddol Heol yr Orsaf. Mae'r ffin yn troi'n sydyn tua'r gorllewin gan ddilyn llinell ffens sy'n nodi ymyl datblygiad parc preswyl a charafanau a'r gwningar, y coetir gwasgaredig, y twyni ac arfordir y parc cenedlaethol arfaethedig i'r gogledd. Gan barhau tua'r gorllewin ac ychydig cyn y parc carafanau nesaf mae'r ffin yn ymuno â llwybr beicio, heb gynnwys cae gyda chorlan stoc a glaswelltir wedi erydu. Mae'r ffin yn parhau o amgylch ymyl gogleddol y parc carafanau mewn ardal lle nad oes ffin ddiffiniedig a lle mae'r twyni tywod yn cyfyngu ar leoliad y carafanau.

Wrth gyrraedd pen dwyreiniol y parc carafanau, mae'r ffin yn troi tua'r de i ddilyn Heol y Traeth. Wrth groesi'r rheilffordd mae plot bach a ddefnyddir ar gyfer storio a maes parcio a chae hamdden heb eu cynnwys. Wrth groesi Ffordd Prestatyn, yr A545, mae'r ffin yn dilyn y gwyrchoedd cyfan a chryf, a'r llinellau coed wrth ymyl pentref Gronant, cyn ailymuno â ffin y dirwedd genedlaethol yn Ffordd Gronant.

Mae'r ffin yn gwyro i'r de ac yna i'r dwyrain o amgylch ochr ddeheuol yr anheddiad cyn ymuno â Ffordd Llanasa. Mae'n parhau ar hyd y ffordd hon i gyfeiriad de-ddwyreiniol am ryw un cilometr ac yn croesi The Dingle cyn troi tua'r de i ddilyn ffordd fach (Heol Kelston Court) i Lanasa.

Wrth gyrraedd y pentref mae'r ffin yn dilyn ffin bresennol y dirwedd genedlaethol o amgylch ochr ddeheuol yr anheddiad. Yna, mae'n rhedeg i gyfeiriad de-orllewinol ar hyd y ffordd fach tuag at Drelawnyd, cyn gwyro oddi ar y ffordd hon i ymestyn o amgylch ymyl gogleddol y pentref wrth droed Bryn y Gop ac ymuno â'r A5151 ar ymyl gorllewinol Trelawnyd. Nid yw'r pentref wedi'i gynnwys gan y ffin.

Ar ôl dilyn yr A5151 am ychydig, mae'r ffin yn anelu tua'r de ar hyd Heol Cwm, ac yna tua'r de-ddwyrain ar hyd Heol Caerwys i Ben-y-rhos. Yma, mae'r ffin yn troi tua'r de ar hyd ffordd ddienw, gan esgyn ac yna disgyn ar hyd lethrau dwyreiniol Mynydd y Cwm, cyn

croesi llwybr Taith Clwyd ar ochr orllewinol Coed Jenny-Morgan ac yna'r A55 (gwibffordd Gogledd Cymru mewn toriad).

Gwibffordd Gogledd Cymru (A55) i Wernymynydd

Ar ôl croesi'r A55 mae'r ffin yn parhau i ddilyn ffin y dirwedd genedlaethol tua'r de ar hyd ffordd ddienw, gan fynd heibio i'r dwyrain o Dŷ Injan Mwynglawdd Plwm Pennant, ac yna troi tua'r de-ddwyrain ar hyd y lôn sy'n dilyn ymyl Coed Bron-fawr.

Mae ystad Neuadd Bryngwyn i'r gogledd ac y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig. Gan barhau i gyfeiriad de-ddwyreiniol, mae'r ffin yn dilyn llethrau uchaf dyffryn llednant afon Chwiler cyn disgyn i'r prif ddyffryn a chroesi ardal y pyllau tywod sydd wedi'u gorlifo ger Plas Maes Mynan a Fferm y Plas, a dilyn ymyl dwyreiniol y fferm a'r plas cyn ymuno â'r ffordd A541 yng ngwaelod dyffryn afon Chwiler. Mae'n dilyn yr A541 mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol eang ar hyd lawr y dyffryn, gan wyro oddi ar y ffordd am ychydig i gynnwys yr Hen Felin ym Melin y Wern, sydd o fewn yr ardal ymgeisiol.

Mae'r ffin yn parhau i ddilyn ffin y dirwedd genedlaethol ar hyd yr A541 a dyffryn coediog afon Chwiler, gan basio i'r dwyrain o Nannerch a'i chynnwys. Tua dwy gilometr i'r gorllewin o Hendre, mae'n troi tua'r de oddi ar yr A541, gan ddilyn Ffordd Star Crossing i Fferm Fforest. Yma, mae'r ffin yn troi tua'r de-ddwyrain ar hyd ffordd ddienw, gan fynd i'r dwyrain o Gilcain a chynnwys y pentref cyn ymuno â Ffordd Cilcain a disgyn i lawr y llethr serth i Ddyffryn Nant Gain ger cydlifiad Nant Gain ag afon Alun. Yna, mae'r ffin yn parhau i ddilyn Ffordd Cilcain, gan ddilyn darn byr o lwybr Taith Clwyd a chroesi'r afon cyn dringo ochr serth y dyffryn i Bont-newydd.

Ym Mhont-newydd, mae'r ffin yn troi tua'r de oddi ar Ffordd Cilcain i ddilyn ymyl gorllewinol y pentref, sy'n cael ei nodweddu gan rywfaint o ddatblygiad hirgul amlwg ar ochr y dyffryn sydd heb ei gynnwys yn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig. Ym mhen deheuol y dyffryn, mae'n croesi Pant y Buarth i ddilyn ffordd ddienw sy'n rhedeg i'r de rhwng afon Alun a Chwarel Cefn Mawr, yr hwn sydd heb ei gynnwys yn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig. Ym Mharc Gwledig Loggerheads mae'n troi'n sydyn tua'r dwyrain i ddilyn llwybr troed ar draws coetir serth ar ymyl deheuol y chwarel, gan droi tua'r gogledd-ddwyrain ac yna tua'r gogledd o amgylch y chwarel cyn ymuno â Ffordd Cadole a throï i'r dwyrain wrth ei chyffordd â Ffordd Hafod.

Gan barhau i ddilyn ffin bresennol y dirwedd genedlaethol, mae'r ffin yn arwain i'r dwyrain ac yna i'r de-ddwyrain ar hyd Ffordd Hafod i bentref Gwernymynydd lle mae'n dilyn llwybr ychydig yn gymhleth ar hyd gyfuniad o lwybrau troed a darn byr o'r A494 o amgylch ymyl gorllewinol y pentref er mwyn peidio â chynnwys y pentref a'r datblygiad hirgul ar hyd yr A494 yn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Gwernymynydd i Goedwig Llandegla

I'r de o Wernymynydd mae'r ffin yn gwyro i'r de drwy goetir ac yna'n anelu tua'r dwyrain ar draws chwarel fach segur i ymuno â Ffordd Glyndŵr lle y mae'n troi i'r de, gan ddilyn y ffordd hon nes iddi ymuno â Lôn Ffordd Glyndŵr ger Tafarn Owain Glyndŵr. Yma, mae'r ffin yn gwyro tua'r dwyrain am ychydig cyn parhau tua'r de ar hyd Lôn Ffordd Glyndŵr.

Gan ddilyn ffin bresennol y dirwedd genedlaethol ar hyd Lôn Ffordd Glyndŵr, mae'r ffin yn parhau rhwng Coedwig Nercwys (o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig) a Choed

Gwern-rhiw (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig, ac i'r dwyrain ohoni). I'r de o'r coetir hwn mae'r ffin yn croesi Mynydd Du tua'r de, yna'n troi tua'r gorllewin ar hyd y lôn sy'n ffurfio ymyl gogleddol Chwarel Maes y Droell. Mae'r ffin yn parhau tua'r gorllewin ar hyd y ffordd ddienw tuag at Bant-y-gwlanod, lle mae'r ffin yn troi tua'r de gan ddilyn llwybr troed ar hyd ymyl gorllewinol Chwarel y Graig, sydd heb ei chynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig. Mae'r ffin yn dilyn y llwybr troed hwn i'r de o'r chwarel nes iddi gyrraedd y ffordd B5430 lle mae'n ymuno am ychydig â Thaith Clwyd.

Ar ôl croesi'r B5430, mae'r ffin yn parhau i ddilyn ffin y dirwedd genedlaethol a darn byr o lwybr Taith Clwyd ar hyd ffordd droellog ddienw trwy ardal o fwyngloddiau plwm segur a thir fferm, heibio i Lyn Cyfynwy (sydd wedi'i gynnwys yn yr ardal ymgeisiol), cyn ymuno â'r B5430 ger yr eiddo o'r enw Pant Terfyn. Mae'n parhau ar y B5430 am ychydig nes iddi gyrraedd Pont Rhydtalog. Yma, mae'n gwyro oddi ar y ffordd i ymestyn o amgylch ymyl gorllewinol Rhydtalog cyn ymuno â'r A5104 ychydig i'r de o'r anheddiad. Ar ôl croesi'r A5104, mae'r ffin yn parhau i ddilyn ffin y dirwedd genedlaethol a Thaith Clwyd ar draws ardal o dir mynediad agored ar hyd ffin orllewinol coetir i'r gogledd-orllewin o gronfa ddŵr Nant y Ffrith, gan basio ymyl dwyreiniol yr anheddiad ym Maes Maelor a throi tua'r dwyrain ar hyd y ffordd A525 am ychydig cyn troi tua'r de ar hyd lwybr troed sy'n arwain at Goedwig Llandegla.

Trefechan i Gefnbychan

Ar ôl croesi Nant y Crogfryn yn Nhali-nant, mae'r ffin yn troi tua'r de ar hyd Stryd y Bont ac yn dilyn y ffordd hon i Drefechan, lle mae'n rhedeg i Ffordd Fferm Trefechan ac yn dilyn y ffordd hon i'r gorllewin tan Fferm Trefechan lle mae'n troi tua'r de oddi ar y ffordd. Yna, mae'r ffin yn dilyn cyfuniad o lwybrau troed a ffiniau caeau i'r de, gan basio rhwng Cronfa Ddŵr Uchaf (o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig) a Chronfa Ddŵr Gwaelod (y tu allan i'r parc cenedlaethol arfaethedig), ac yn ymuno â Stryd yr Eglwys ger Plas-uchaf i'r gorllewin o Benycae, sydd heb ei gynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r ffin yn parhau i ddilyn Stryd yr Eglwys i gyfeiriad de-orllewinol ar draws ei chroestoriad â Sunny Bank a Ffordd Bowers lle mae'n dod yn Stryd y Groes. Ym Mhen-y-bryn mae'n troi tua'r gorllewin ar hyd Ffordd Pen-y-bryn cyn troi tua'r de ar y llwybr mynediad i Fferm Ysgubor Isaf. Gan basio'r fferm, mae'r ffin yn disgyn llethrau uchaf Bryn y Tŵr gan ddilyn llwybr troed a ffiniau caeau tuag at ddyffryn coediog Nant Tref-y-nant y mae'n ei groesi i'r de o Fferm Nant Uchaf. I'r de o'r nant, mae'r ffin yn dilyn Bryn y Tŵr am ychydig cyn troi tua'r de oddi ar y ffordd i groesi llethrau isaf Coed y Tŵr uwchlaw cronfa ddŵr Gronwen. Yna, mae'n croesi Ffordd Garth Trefor ac yn dilyn ffiniau cefn sawl eiddo ar ymyl gorllewinol y pentref, cyn ymuno â Ffordd Maes Mawr a Ffordd Pen y Gaer am ychydig cyn troi tua'r de i ddilyn ffiniau caeau cyn belled â Ffordd Neuadd Trefor lle y mae'n troi tua'r de. Nid yw Garth na Garth Trefor wedi'u cynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r ffin yn parhau i ddilyn Ffordd Garth Trefor a ffin y dirwedd genedlaethol, gan ymuno â Llwybr Clawdd Offa i'r dwyrain o Neuadd Trefor a throi tua'r gogledd ar hyd y ffordd A539 am ychydig.

Yna, mae'r ffin yn troi tua'r gogledd-ddwyrain ger eiddo ar Ffordd Llangollen ac yn dilyn ymyl deheuol anheddiad Trefor, gan groesi llinell reilffordd sydd wedi'i datgymalu cyn dilyn ochr orllewinol Camlas Llangollen a'r ffordd B5434, gan basio i'r gorllewin o Dafarn Telford a Basn Trefor. Yn yr ardal goediog i'r de o faes parcio traphont ddŵr Pontcysyllte, mae'r

ffin yn troi'n sydyn tua'r de i ddilyn ymyl dwyreiniol y gamlas i Ffordd Newydd. Ar ôl croesi Ffordd Newydd, mae'n dilyn ffiniau caeau i'r dwyrain o Fasn Trefor a changen Camlas Llangollen, sy'n mynd tua'r de i draphont ddŵr Pontcysyllte.

Ar ochr ogleddol y draphont mae'r ffin yn troi tua'r dwyrain i ddilyn ffiniau caeau ar hyd ochr ogleddol goediog dyffryn afon Dyfrdwy. Yn Nolydd mae'n troi'n ddyffryn llednant bach o'r afon am ychydig cyn dilyn ymyl de-orllewinol Dolydd a Chefn-bychan i Barc Gwledig Tŷ Mawr. Ar ôl croesi'r rheilffordd, mae'r ffin yn ymuno â'r ffordd B5605 ac yn dilyn y ffordd hon o amgylch ymyl dwyreiniol Cefnbychan. Nid yw'r anheddiad yn cael ei gynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Trefechan i Gefnbychan

Ar ôl croesi Nant y Crogfryn yn Nhali-nant, mae'r ffin yn troi tua'r de ar hyd Stryd y Bont ac yn dilyn y ffordd hon i Drefechan, lle mae'n rhedeg i Ffordd Fferm Trefechan ac yn dilyn y ffordd hon i'r gorllewin tan Fferm Trefechan lle mae'n troi tua'r de oddi ar y ffordd. Yna, mae'r ffin yn dilyn cyfuniad o lwybrau troed a ffiniau caeau i'r de, gan basio rhwng Cronfa Ddŵr Uchaf (o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig) a Chronfa Ddŵr Gwaelod (y tu allan i'r parc cenedlaethol arfaethedig), ac yn ymuno â Stryd yr Eglwys ger Plas-uchaf i'r gorllewin o Benycae, sydd heb ei gynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r ffin yn parhau i ddilyn Stryd yr Eglwys i gyfeiriad de-orllewinol ar draws ei chroestoriad â Sunny Bank a Ffordd Bowers lle mae'n dod yn Stryd y Groes. Ym Mhen-y-bryn mae'n troi tua'r gorllewin ar hyd Ffordd Pen-y-bryn cyn troi tua'r de ar y llwybr mynediad i Fferm Ysgubor Isaf. Gan basio'r fferm, mae'r ffin yn disgyn llethrau uchaf Bryn y Tŵr gan ddilyn llwybr troed a ffiniau caeau tuag at ddyffryn coediog Nant Tref-y-nant y mae'n ei groesi i'r de o Fferm Nant Uchaf. I'r de o'r nant, mae'r ffin yn dilyn Bryn y Tŵr am ychydig cyn troi tua'r de oddi ar y ffordd i groesi llethrau isaf Coed y Tŵr uwchlaw cronfa ddŵr Gronwen. Yna, mae'n croesi Ffordd Garth Trefor ac yn dilyn ffiniau cefn sawl eiddo ar ymyl gorllewinol y pentref, cyn ymuno â Ffordd Maes Mawr a Ffordd Pen y Gaer am ychydig cyn troi tua'r de i ddilyn ffiniau caeau cyn belled â Ffordd Neuadd Trefor lle y mae'n troi tua'r de. Nid yw Garth na Garth Trefor wedi'u cynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r ffin yn parhau i ddilyn Ffordd Garth Trefor a ffin y dirwedd genedlaethol, gan ymuno â Llwybr Clawdd Offa i'r dwyrain o Neuadd Trefor a throi tua'r gogledd ar hyd y ffordd A539 am ychydig.

Yna, mae'r ffin yn troi tua'r gogledd-ddwyrain ger eiddo ar Ffordd Llangollen ac yn dilyn ymyl deheuol anheddiad Trefor, gan groesi llinell reilffordd sydd wedi'i datgymalu cyn dilyn ochr orllewinol Camlas Llangollen a'r ffordd B5434, gan basio i'r gorllewin o Dafarn Telford a Basn Trefor. Yn yr ardal goediog i'r de o faes parcio traphont ddŵr Pontcysyllte, mae'r ffin yn troi'n sydyn tua'r de i ddilyn ymyl dwyreiniol y gamlas i Ffordd Newydd. Ar ôl croesi Ffordd Newydd, mae'n dilyn ffiniau caeau i'r dwyrain o Fasn Trefor a changen Camlas Llangollen, sy'n mynd tua'r de i draphont ddŵr Pontcysyllte.

Ar ochr ogleddol y draphont mae'r ffin yn troi tua'r dwyrain i ddilyn ffiniau caeau ar hyd ochr ogleddol goediog dyffryn afon Dyfrdwy. Yn Nolydd mae'n troi'n ddyffryn llednant bach o'r afon am ychydig cyn dilyn ymyl de-orllewinol Dolydd a Chefn-bychan i Barc Gwledig Tŷ Mawr. Ar ôl croesi'r rheilffordd, mae'r ffin yn ymuno â'r ffordd B5605 ac yn dilyn y ffordd

hon o amgylch ymyl dwyreiniol Cefnbychan. Nid yw'r anheddiad yn cael ei gynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Cefnbychan i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr i Felin y Castell (Dyffryn Ceiriog)

Mae'r ffin yn dilyn y B5606 ac yn croesi afon Dyfrdwy yng Nghefnbychan ac yn parhau i ddilyn coridor coediog y B5605 wrth iddi droi i'r dwyrain ac yna i'r de. Mae'n gwyro tua'r gorllewin oddi ar y ffordd ger Gwaith Pen y Bont ac yn dilyn ymyl deheuol y coetir sy'n leinio ochr ddwyreiniol yr afon o'i flaen, gan ailymuno â'r B5605 ar ochr ogleddol Pentre a chroesi rheilffordd Wrecsam i Amwythig a Chamlas Llangollen yn gyflym ar ôl ei gilydd. Wrth groesi'r gamlas mae'r ffin yn ymuno am ychydig â Llwybr Clawdd Offa cyn gwyro tua'r de-ddwyrain ar hyd y ffordd A5 i ffwrdd o Llwybr Clawdd Offa, sy'n anelu tua'r gorllewin.

Ychydig cyn i'r A5 groesi Twnnel Camlas Whitehouse, mae'r ffin yn troi tua'r de ar hyd Ffordd Fferm New Hall, gan basio i'r gorllewin o farina'r Waun a chyn gwrs golff, sydd heb eu cynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig. I'r dwyrain o New Hall, mae'r ffin yn troi oddi ar New Hall Farm Road, gan ddilyn llwybr troed tua'r de ar hyd ochr orllewinol yr hen gwrs golff, ac yn ymuno â Llwyn y Cill ar ymyl gogleddol Coed Mynatyn. Mae'n parhau i ddilyn y ffordd hon wrth iddi redeg i'r dwyrain o Goed Mynatyn, ac yn croesi rhan ddwyreiniol Ystad Castell y Waun, sy'n cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. I'r de o faes gwersylla clwb carafanau a chartrefi modur Parc Lady Margaret, sydd wedi'i leoli o fewn Coedwig y Gronfa Ddŵr ac y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig, mae'r ffin yn troi tua'r dwyrain ar hyd ymyl deheuol y safle carafanau, gan ddilyn llwybr troed tuag at draphont ddŵr y Waun.

Mae'r ffin yn croesi'r ffordd B4500 ac yn rhedeg ar hyd gwrtil deheuol sawl eiddo ar ochr y ffordd, sydd heb eu cynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig. Yna, mae'r ffin yn dychwelyd i'r B4500 ac yn cynnwys basn camlas traphont ddŵr y Waun a mynedfa'r twnnel, sydd islaw'r ffordd. Mae'r ffin yn olrhain llinell i orlifdir Dyffryn Ceiriog gan ddilyn bwâu'r draphont ddŵr nes cwrdd â'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Tynnwyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn wreiddiol gan ddilyn yr afon. Mae sianel yr afon wedi mudo ers hynny. Mae ffin arfaethedig y parc cenedlaethol yn dilyn llinell hanesyddol y ffin rhwng Cymru a Lloegr ar draws y gorlifdir cyn ailymuno ag afon Ceiriog tua'r gorllewin gan ddilyn ei glan ogleddol. Mae hanner gogleddol traphont ddŵr y Waun a'r draphont reilffordd o fewn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Wrth groesi pont faen dros afon Ceiriog, mae'r ffin yn ailymuno â'r B4500 tua'r gorllewin gan ddilyn llawr y dyffryn wrth droed llethr serth a choediog y dyffryn sy'n wynebu'r de. Mae'r ffin yn dilyn y ffordd hon i Felin y Castell lle mae'n troi i'r de oddi ar y B4500 gan groesi'r afon.

Lle mae ffin y parc cenedlaethol arfaethedig yn dilyn rhannau o afon Ceiriog, ystyrir mai ffin 'am y tro' ydyw. Gweler Atodiad 1 am eglurhad.

Adran 2: Melin y Castell (Dyffryn Ceiriog) i Ben-y-bont Llanerch Emrys (Dyffryn Tanat) Darnau o fapiau 8, 9, 10, 11

Cyflwyniad

Mae'r rhan hon o ffin arfaethedig y parc cenedlaethol yn dilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn bennaf wrth iddi ymestyn i'r de rhwng Melin y Castell yng Ngwm Ceiriog a Phen-y-bont Llanerch Emrys o fewn Dyffryn Tanat. Yma, mae'r ffin yn croesi ymyl dwyreiniol godreon Mynyddoedd y Berwyn. Cafodd yr asesiad ei lywio gan waith maes manwl, a chadarnhaodd fod y ffin hon yn cynnwys tirwedd o harddwch naturiol digonol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored digonol i haeddu cael ei chynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig.

Disgrifiad manwl o'r ffin

Melin y Castell i Rydycroesau

Mae'r rhan hon yn ymadael â'r B4500 ym Melin y Castell i groesi afon Ceiriog ar lôn i Fronygarth (a ddilynir hefyd gan Ffordd Maelor) am ychydig. Yna, mae'r ffin yn troi i'r de-orllewin gan ddilyn heneb gofrestredig Clawdd Offa, ac ar ôl un cilometr yn cyrraedd Llwybr cenedlaethol Clawdd Offa. Mae Llwybr Ceiriog hefyd yn croesi'r ffin yn y fan hon. Mae'r ffin yn dilyn ffiniau caeau wedi'u diffinio'n dda trwy ardal o lwyfandir coediog tonnog, dyffryn coediog rhychog is-afon i afon Ceiriog, a rhai ffyrdd dienw sy'n croesi'r tir fferm.

Mae'n mynd i'r gorllewin o Goedwig Mount (sydd y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig) gan barhau ar hyd heneb gofrestredig Clawdd Offa (mae'r Llwybr cenedlaethol yn dargyfeirio am ychydig i ffwrdd o'r heneb a'r ffin) i mewn i'r dyffryn serth yng Nghraignant. Yma, mae'r ffin yn croesi Nant Morlas a choridor coediog y ffordd B4579 ger clwstwr bach o eiddo (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig), cyn parhau tua'r de ar hyd yr heneb gofrestredig / y ffin rhwng Cymru a Lloegr, gyda Llwybr Clawdd Offa ychydig i'r dwyrain. Mae Bryn Selattyn hanner cilometr i'r dwyrain y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Wrth ei chydliad â dyffryn nant lai arall, mae'r ffin yn troi tua'r gorllewin gan ddilyn cwrs y nant lai i fyny ei dyffryn rhychog cyn gwyro tua'r de ger pen y dyffryn i ddilyn ffin cae wedi'i diffinio'n dda, ac ymuno â Llwybr Ceiriog wrth iddo ddisgyn i Ddyffryn Afon Cynllaith i'r de-ddwyrain o gronfa ddŵr Pen-y-gwely. Yna, mae'r ffin yn troi i gyfeiriad mwy de-ddwyreiniol gan ddilyn afon Cynllaith ar hyd lawr y dyffryn cyn belled ag anheddiad bach Rhydycroesau.

Rhydycroesau i Ben-y-bont Llanerch Emrys (Dyffryn Tanat)

Yn Rhydycroesau mae'r ffin yn croesi'r ffordd B4590 ac yn parhau i ddilyn afon Cynllaith i gyfeiriad y de-orllewin wrth iddi lifo i lawr yr afon trwy Bant Bryn-coch a choetiroedd Rhydycroesau. Ym mhen deheuol Pant Bryn-coch, mae'n dod allan o'r dyffryn coediog cul ac yn parhau i ddilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr ar hyd gwrs troellog afon Cynllaith wrth i'r dyffryn ehangu i'r de-orllewin. Mae Coed Cochion yn cwmpasu'r llethrau serth i'r dwyrain, yn Lloegr ac y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Ar ffordd ddienw i'r dwyrain o Lansilin, ger eiddo o'r enw Pont Pentre-gwyn, mae'r ffin yn gwyro tua'r dwyrain i ddilyn llednant fach o afon Cynllaith cyn troi tua'r de i ffwrdd o'r nant a dilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr sydd, yn y lleoliad hwn i bob golwg, ag aliniad mympwyol heb fawr o gyfeiriad at nodweddion naturiol neu nodweddion o waith dyn ar y ddaear.

Mae'r ffin yn ymuno â'r B4580 i'r gogledd-orllewin o Goedwig Graig-wen, yn troi i'r gorllewin am ychydig ar hyd y ffordd, ac yna i'r de ar hyd ddyffryn llednant bach o afon Cynllaith wrth iddi godi i gyfeiriad de-orllewinol yn gyfochrog â ffordd ddienw wrth droed y bryn serth sydd wedi'i orchuddio gan Goedwig Graig-wen. Ger ymylon deheuol y goedwig hon, mae'r ffin yn troi tua'r gorllewin gan ddilyn ffiniau caeau i fyny llethrau dwyreiniol serth Mynydd-y-Bryn. Mae'n parhau i gyfeiriad de-orllewinol yn fras ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan ddilyn ffiniau'r caeau yn bennaf trwy ardal o gaeau bach rheolaidd uchel. Ar ôl croesi'r ffordd ddienw i'r dwyrain o Sycharth, mae'n parhau tua'r de ar hyd gwrs syth nant fach ac yna Nant Goch, ar hyd ei dyffryn rhychog a choediog, cyn croesi ffordd ddienw ger y clwstwr o adeiladau yn Fferm Nant Goch. O'r fan hon, mae'r ffin yn gwyro i ffordd o'r cwrs dŵr i groesi cae agored ac ailymuno â chwrs afon Cynllaith ger Pen-y-bont Llanerch Emrys ar y ffordd B4396. Yna, mae'r ffin yn troi tua'r gorllewin ar hyd y B4396 i Ben-y-bont Llanerch Emrys.

Adran 3: Pen-y-bont Llanerch Emrys (Dyffryn Tanat) i Barc Cenedlaethol Eryri Darnau o fapiau 11, 12, 13, 14, 15

Cyflwyniad

Mae'r rhan hon o ffin arfaethedig y parc cenedlaethol yn dilyn ymyl gogleddol Dyffryn Tanat i'r gorllewin o Ben-y-bont Llanerch Emrys i Bentrefelin. Yna, mae'r ffin yn troi tua'r gogledd a'r gorllewin gan ddilyn ymyl y brynau mwy serth lle mae'r dyffrynnoedd ochr yn cydglori â brynau Mynyddoedd y Berwyn i'r gogledd, a'r cefndeuddwr rhwng dyffrynnoedd Ceiriog a Thanat o amgylch Moelfre a Llanarmon Mynydd-Mawr. Yna, mae'r ffin yn troi tua'r de ac yn croesi afon Rhaeadr i'r gorllewin o Lanrhaeadr-ym-Mochnant, cyn ymuno â'r isffordd i Ben-y-bont-fawr. O Ben-y-bont-fawr, nid yw'r ffin yn cynnwys y pentref, ac y mae'n dilyn y B4396 i Hirnant, trwy Lascwm ac Abertridwr, gan droi tua'r de-orllewin i ddilyn ffordd fach ar hyd ddyffryn afon Efyrynwy, yna trwy fryniau serth i Bont Llogel. Mae'n cynnwys coetir hynafol ar hyd afon Efyrynwy ac yn parhau ar hyd y B4396 i ymuno â'r A458 i'r gorllewin o Langadfan. Yna, mae'r ffin yn dilyn yr A458 i'r gorllewin ar hyd ddyffryn Banwy i Bont Nant-y-dugoed, lle mae'n ymuno â ffin Parc Cenedlaethol Eryri.

Disgrifiad manwl o'r ffin

Pen-y-bont Llanerch Emrys i Ben-y-bont-fawr

Nid yw'r ffin yn cynnwys pentref Pen-y-bont Llanerch Emrys, ac mae'n dilyn y B4396 i'r gorllewin, heb gynnwys pentrefi Abercynllaith a Llangedwyn, i Bentrefelin. Yma, mae'n troi tua'r gogledd ar hyd ffordd fach tuag at Moelfre, gan gynnwys llethrau serth Craig Orllwyn i'r dwyrain, ac yn troi tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd ddarn byr o'r B4580 yn Efail-rhyd. Mae'r ffin yn troi tua'r gogledd ar hyd ffordd fechan, heibio fferm Lloran Uchaf i'r dwyrain, gan droi tua'r gogledd-ddwyrain i fyny ffordd fechan, gan fynd heibio ffermydd Oddi-ar-y-llyn a Fferm Parc (heb eu cynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig). Mae'n croesi dyffryn bach i'r gogledd o Lyn Moelfre gan ddilyn ffiniau caeau i gyrraedd y ffordd fach yn Nhynllyn.

O Dynllyn, mae'r ffin yn parhau tua'r gogledd-orllewin ac yna i'r gorllewin ar hyd ffordd fechan i Berthlwyd, gan droi tua'r de-orllewin ar ôl Glan y Wern, ar hyd ffordd fechan i Gapel Moriah wrth y gyffordd â ffordd fechan sy'n anelu tua'r de. Mae'n dilyn y ffordd hon i'r de, yna'n troi tua'r de-orllewin, gan groesi dyffryn afon Lleiriog, gan fynd heibio i goetir

ac ar hyd ffiniau caeau i ymuno â ffordd fach wrth fynedfa Bedran. Mae'r ffin yn parhau tua'r de-orllewin ar hyd y ffordd fach hon i Llety, gan droi tua'r gorllewin ar hyd ffordd fach a llwybr heibio i Danyfoel i Lanarmon Mynydd-Mawr (wedi'i chynnwys).

O Lanarmon Mynydd-Mawr, mae'r ffin yn troi i'r de ar hyd isffordd, yna i'r gorllewin i gyfeiriad Bryn-coch, gan ddilyn trac (cilffordd) ar ymyl llethrau mwy serth Mynydd Mawr. Yna, mae'n croesi'r llethrau ar lefelau segur i ddilyn ffiniau coetir a chaeau ychydig i'r dwyrain o afon lwrch, cyn croesi'r afon lle mae llwybrau troed yn cydgyfarfod. Yna, mae'r ffin yn dilyn llwybr i'r gorllewin a ffordd fechan i'r gogledd-orllewin i Dai-newyddion.

Yna, mae'r ffin yn dilyn ffordd fechan i'r gogledd ac yna i'r gorllewin i Dŷ-cerrig, gan droi i'r de yn Nhyn-y-celyn ochr ar hyd ffiniau caeau i ymuno â ffordd fechan i'r de-ddwyrain, gan groesi afon Rhaeadr a dilyn ffiniau caeau i Wern Sebon. Oddi yma mae'n dilyn trac i'r de-ddwyrain ac yna, ffiniau caeau heibio i Ben-y-lan i ymuno â'r isffordd o Lanrhaeadr-ym-Mochnant i Ben-y-bont-fawr.

Pen-y-bont-fawr i Barc Cenedlaethol Eryri

Nid yw'r ffin yn cynnwys pentref Pen-y-bont-fawr, ond mae'n dilyn ffordd fechan i'r gogledd-orllewin o'r pentref, yna ffiniau'r caeau, gan groesi afon Tanat a dilyn y B4391 i'r gorllewin, a'r ffordd fechan (Ystryd Ddu) i'r de i ymuno â'r B4396 i'r gorllewin o'r pentref.

Yna, mae'r ffin yn dilyn y B4396 i'r gorllewin tuag at Gwm Hirnant, sydd â llethrau serth. O bentref Hirnant mae'r ffin yn parhau tua'r de ar hyd y B4391 trwy lethrau serth, coediog Glasgwm, ac yn troi tua'r de-orllewin i Abertridwr (heb ei gynnwys yn y parc cenedlaethol arfaethedig). Yna, mae'n dilyn y B4396 i'r de at dro bach lle mae'n troi tua'r de-orllewin ar hyd ffordd fechan (Cross Britain Way) ar hyd ddyffryn serth afon Efyrrwy.

Mae'r ffin yn troi tua'r de-orllewin ar hyd y ffordd fach, gan droelli'n serth trwy'r brynau i Ben-y-braich, yna'n troi tua'r de. Ychydig i'r de o Fachwen-ganol mae'r ffin yn ymadael â'r ffordd fach wrth ryd ac yn dilyn ffin coetir i ymuno â'r ffordd B4395 i Bont Llogel. Mae'r ffin yn dilyn ymyl y coetir i'r de-ddwyrain, yna'n croesi afon Efyrrwy ac yn dilyn ffiniau coetir a chaeau i'r gogledd-orllewin ar hyd yr afon yn ôl i ymuno â'r B4395, gan gynnwys yr ardal hon o goetir hynafol ar hyd yr afon. Mae'r ffin yn dilyn y B4395 i'r de-orllewin i Aberdwynant, Penyffordd (lle mae Llwybr Glyndŵr yn croesi), gan barhau i'r de i ymuno â'r A458 i'r gorllewin o Langadfan.

Mae ffin arfaethedig y parc cenedlaethol yn dilyn yr A458 tua'r gorllewin, gan fynd i'r gogledd o dai ac ysgol (Ysgol Cwm Banwy), ac yn parhau tuag at y Foel. Yma, mae'n mynd i'r gogledd o'r anheddiad, gan groesi afon Twrch i ailymuno â'r A458 ym Mhont Twrch. Mae'r ffin yn parhau tua'r gorllewin ar hyd yr A458, gyda Dyffryn Banwy yn dod yn gaeedig ac yn serth wrth iddi fynd trwy Fwlch y Fedwen i Bont Nant-y-dugoed, lle mae'n ymuno â ffin Parc Cenedlaethol Eryri.

Adran 4: Parc Cenedlaethol Eryri i Landrillo (Dyffryn Dyfrdwy Uchaf)

Darnau o fapiau 15, 16, 17, 18

Cyflwyniad

Mae'r ffin yn dilyn ffin bresennol Parc Cenedlaethol Eryri drwy'r ucheldiroedd garw ac anghysbell rhwng Pont Nant-y-dugoed a Dyffryn Afon Dyfrdwy ger Llandderfel. Mae ffin y parc cenedlaethol yma'n ffurfio'r ffin weinyddol rhwng Gwynedd a Phowys. Mae'r ffin yn ymadael â ffin Parc Cenedlaethol Eryri i groesi Dyffryn Dyfrdwy Uchaf o fewn Gwynedd, i gynnwys ochr ogleddol y dyffryn a lleoliad llethr pentref Llandderfel (o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig). Yna, mae'r ffin yn troi tuag at Landrillo o fewn Sir Ddinbych (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig).

Disgrifiad manwl o'r ffin

Ffin Parc Cenedlaethol Eryri

Mae'r rhan hon yn cychwyn ym Mhont Nant-y-dugoed a ffin Parc Cenedlaethol Eryri, lle mae'n troi tua'r gogledd i ddilyn cwrs afon Dugoed tuag at Drum Ddu.

Mae'r ffin yn dilyn ffin Parc Cenedlaethol Eryri i'r gogledd ar hyd lawr y dyffryn wrth iddi esgyn i'r ucheldiroedd, gan basio i'r gorllewin o'r blanhigfa goedwigaeth fasnachol fawr yn Llechwedd Du o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Yna, mae'n croesi ardal o ucheldir agored ac anghysbell yn ne'r Berwyn, gan redeg yn fras ar hyd bwyntiau uchaf llwyfandir Berwyn a gorwel afon Dyfi a dyffryn Dinas Mawddwy i'r gorllewin, y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig. Mae copaon enwol y mae'r ffin yn eu croesi, neu'n mynd heibio iddynt yn agos iawn, yn cynnwys Drum Ddu, Carreg y Frân, Carreg y Big, Bryn Glas, Craig y Pant. Ar ôl hynny, mae'r ffin yn disgyn ychydig i groesi'r ffordd ddienw sy'n cysylltu Llyn Efyrynwy â Dyffryn Afon Dyfi trwy Fwlch y Groes, sydd ychydig i'r gorllewin, y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Wedi croesi'r ffordd, mae'r ffin yn troi ychydig tua'r gogledd-ddwyrain, gan fynd heibio i Foel y Groes, i gopa Moel y Cerrig Duon, a rhannau uchaf nifer o lednentydd afon Eiddew, afon Nadroedd ac afon Yn-y-groes sy'n llifo i mewn i Llyn Efyrynwy.

Wrth afon Nadroedd, mae'r ffin yn troi'n sydyn tua'r de-ddwyrain i ddilyn y cwrs dŵr i lawr yr afon, i floc o goetir planhigfa wrth droed Foel y Garnedd. Mae'r ffin yn troi tua'r gogledd gan ddilyn ymyl y goedwig / rhostir cyn dilyn Nant Nadroedd Bach i fyny'r afon at y groesfan ffordd rhwng y Bala a Llyn Efyrynwy.

Ar ôl y ffordd hon mae'r ffin yn dilyn llinell syth tua'r gogledd-ddwyrain at garreg ffin yn Stac Rhos, ac un arall ym mhen Bwlch Cam i'r dde o Goedwig Penllyn (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig). Mae'r ffin yn croesi Cyniau Nod cyn mynd tua'r gogledd-ddwyrain i Fryn Melyn-bach ac yna disgyn am ychydig ar hyd lednant Nant Cwm Pydew i ymuno â'r B4391 ychydig i'r gogledd-orllewin o Bont Cwm Pydew.

Mae'r ffin yn dilyn y B4391 i lawr Cwm Sian Llwyd tua'r gogledd ac yn mynd i'r dwyrain o Chwarel y Frenhines a Chwarel Llandderfel cyn troi tua'r gogledd-orllewin a disgyn trwy Goed Tŷn-y-gwrych (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig) at fachdro yn y

ffordd, lle mae'r ffin yn troi'n sydyn i'r de wrth iddi ddisgyn i lawr i Ddyffryn Penllyn, gan groesi'r Caletwr, un o lednentydd afon Dyfrdwy. Mae'r ffin yn dilyn y B4391 i Goed Tŷ-tan-graig cyn troi tua'r gogledd, gan ymadael â ffin Parc Cenedlaethol Eryri a chroesi llawr y dyffryn.

Adran 5: Llandrillo (Dyffryn Dyfrdwy Uchaf) i Lanfair Dyffryn Clwyd (Dyffryn Clwyd) Darnau o fapiau 18, 19, 20, 21

Cyflwyniad

I'r dwyrain o Landrillo mae'r ffin yn ymuno â'r B4401, sy'n dilyn troed llethrau brynau'r Berwyn yn fras. Dilynir y ffordd ar hyd ymyl dwyreiniol Dyffryn Dyfrdwy gan ymuno â ffin Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, sy'n bodoli eisoes, yng Nghynwyd (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig). Dilynir ffin y dirwedd genedlaethol i Gorwen (o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig), ar draws genau bro Llangollen ac ar hyd odre Caer Drewyn i mewn i Ddyffryn Morwynion, cyn i'r ffin droi tua'r gogledd (gan ymadael â ffin y dirwedd genedlaethol) i groesi llethrau'r dyffryn ac i mewn i Ddyffryn Clwyd tuag at bentrefi Llanellidan a Phwll-glas (y ddau y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig). Yna, mae'r ffin yn troi tua'r dwyrain tuag at Lanfair Dyffryn Clwyd (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig) cyn ailymuno â Thirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i'r gogledd o Graig Fechan (o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig).

Disgrifiad manwl o'r ffin

Llandrillo i Ddyffryn Morwynion

O Landrillo, mae'r ffin yn parhau ar hyd y B4401 i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol ar hyd ochr ddwyreiniol gorlifdir afon Dyfrdwy ac yn croesi afon Llynor ym Mhont yr Hendwr. Mae llawr y dyffryn y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Yng Nghynwyd mae'r ffin yn troi oddi ar y B4401 i mewn i ddyffryn afon Trystion, ac yn dilyn ymylon dwyreiniol y pentref, gan ei eithrio o ardal y parc cenedlaethol arfaethedig. Mae'r ffin yn cyd-redeg am ychydig â Llwybr Gogledd y Berwyn. Wrth ailymuno â'r B4401 mae'r ffin yn parhau tua 500 metr i'r gogledd-ddwyrain o Gynwyd ac yn ymuno â ffin y dirwedd genedlaethol wrth iddi wyro tua'r gogledd oddi ar y ffordd ar hyd ddarn byr o lwybr troed tuag at afon Dyfrdwy a hen eglwys plwyf Llangar.

Yma, mae'r ffin yn troi i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol gan ddilyn ffin y dirwedd genedlaethol a Llwybr Gogledd y Berwyn ar hyd lan ochr dde afon Dyfrdwy.

Cyn cyrraedd Corwen, mae'r ffin yn croesi afon Dyfrdwy ar bont droed ac yn dilyn Llwybr Gogledd y Berwyn ar hyd lan ochr chwith yr afon tua'r gogledd-ddwyrain i Bont Corwen, lle mae'r A5 yn croesi'r afon. Mae'r ffin yn parhau i ddilyn glannau ochr chwith yr afon wrth iddi lifo o amgylch ochr ogleddol Corwen (sydd wedi'i chynnwys yn yr ardal) ac i'r de o Drewyn Fawr (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig). I'r de-ddwyrain o Drewyn Fawr mae'r ffin yn troi'n sydyn tua'r gogledd, gan ymuno â rhan o lôn werdd a Llwybr Gogledd y Berwyn am ychydig tuag at y ffordd B5437.

Ar y B5437 lle mae Llwybr Gogledd y Berwyn yn cwrdd â Llwybr Dyffryn Dyfrdwy, mae'r ffin yn dilyn Llwybr Dyffryn Dyfrdwy tua'r gogledd-orllewin ar hyd ran o'r lein reilffordd segur islaw'r llethrau serth sy'n codi i Fryngaer Caer Drewyn (o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig). Gan barhau i ddilyn ffin y dirwedd genedlaethol, mae'r ffin yn troi tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd ddarn byr o'r ffordd ddienw sy'n cysylltu'r ffordd B5437 â'r A5104. Mae'n troi tua'r dwyrain oddi ar y ffordd ac i ffwrdd o Llwybr Dyffryn Dyfrdwy gan ddilyn ffiniau caeau a rhes o linellau trydan uwchben ar hyd doriad y llethr rhwng llawr y dyffryn a llethrau Bryniau Llandysilio-yn-lâl, sydd wedi'u cynnwys yn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r ffin yn croesi'r ffordd B5436 ychydig i'r gogledd o Fron Newydd (o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig) cyn troi tua'r gogledd ar draws llawr Dyffryn Morwynion lle mae'n ymuno â'r A5104.

Dyffryn Morwynion i Lanfair Dyffryn Clwyd

Mae'r ffin yn dilyn yr A5104 am ryw 100 metr cyn gwyro tua'r gogledd ar hyd y llwybr mynediad i'r eiddo o'r enw Bryn Tangor (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig), ac i ffwrdd o'r A5104 a ffin y dirwedd genedlaethol.

I'r gogledd o'r eiddo, mae'r ffin yn dilyn ymyl gorllewinol a gogleddol planhigfa fach ym Moel Truan ac yn rhedeg i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol yn fras ar hyd ffiniau caeau a llwybr troed cyn troi i'r gogledd ger yr eiddo o'r enw Pwll-pridd ac ymuno â lôn i'r gorllewin o eiddo o'r enw Casgen Highgate. Mae'r ddau eiddo o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Gan redeg i'r gorllewin ar hyd y lôn am ychydig, mae'r ffin yn troi i'r gogledd ar hyd ddyffryn nant bas. Yna, mae'n dilyn cyfres o ffiniau caeau a llwybr mynediad fferm, gan gwrdd yn y pen draw â ffordd ddienw ger yr eiddo o'r enw Groes-wen (y tu allan i ardal y parc cenedlaethol arfaethedig). Yna, mae'r ffin yn troi tua'r gogledd oddi ar y ffordd hon tua'r gogledd-orllewin, gyda sawl newid cyfeiriad wrth iddi ddilyn ffiniau caeau, ffordd ddienw, ymylon coetir a chysiau nentydd. Mae'r ffin yn cwrdd â ffordd ddienw ger eiddo o'r enw Hafotty i'r gorllewin o Gae Coed (mae'r ddau o fewn ardal y parc cenedlaethol arfaethedig). O'r fan hon, mae'r ffin yn dilyn y lôn tua'r gogledd tuag at Lanelidan. Ar dro sydyn yn y lôn, mae'r ffin yn ymadael â'r ffordd ac yn dilyn ymyl deheuol y coetir i bentref Lanelidan. Mae'r ffin yn dilyn ymyl dwyreiniol y pentref gan eithrio'r pentref o ardal y parc cenedlaethol arfaethedig. Mae'r ffin yn croesi'r ffordd B5429 ac yn parhau tua'r gogledd ar hyd y ffordd ddienw ac yn ymuno â'r A494 ychydig i'r gorllewin o Blas Nantclwyd (o fewn yr ardal).

O Blas Nantclwyd mae'r ffin yn dilyn yr A494 tua'r gogledd ar hyd ymyl gorllewinol Dyffryn Afon Clwyd tuag at Bwll-glas. Mae'r ffin yn rhedeg ar hyd gefn sawl eiddo ar ochr y ffordd ar hyd ochr ddwyreiniol y ffordd, ac felly'n eithrio pentref Pwll-glas o ardal y parc cenedlaethol arfaethedig.

Wrth barhau ar hyd yr A494, mae ochrau coediog y dyffryn yn culhau'n amlwg ar y naill ochr a'r llall i goridor y ffordd. Ar ddiwedd y pentref, mae'r ffin yn troi tua'r gogledd gan ddilyn darnau coetir safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Craig-adwy-wynt cyn ailymuno â'r A494 wrth y gyffordd â lôn sy'n croesi afon Clwyd a llinell reilffordd segur. Dilynir y ffordd ddienw i Lanfair Dyffryn Clwyd, lle mae'r ffin yn troi ar hyd ymylon deheuol y

pentref gan ei eithrio o ardal y parc cenedlaethol arfaethedig. Croesir yr A525 yn y lleoliad hwn. Yna, mae'r ffin yn dilyn Ffordd Church Mews tua'r dwyrain ar draws y dyffryn tuag at Fryniau Clwyd a ffin y dirwedd genedlaethol sy'n dilyn y ffordd B3429. Mae hyn yn dod â ni i ben y daith ac yn dod â disgrifiad o ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr i ben.

Atodiad 1: Ystyriaethau manwl ar gyfer gosod ffiniau

Canllawiau Gweithdrefnol Cyfoeth Naturiol Cymru (2022): Dynodiad Tirwedd Statudol (GN 010)

Ardaloedd trawsnewid

Fel arfer, nid yw'r ffin yn dynodi gwahaniaeth clir rhwng ardaloedd o wahanol ansawdd. Yn aml, bydd trawsnewidiad o harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored ar draws ehangder o dir: yn yr achosion hynny, dylai'r ffin a ddewisir fod yn nodwedd hawdd ei hadnabod o fewn y trawsnewidiad hwn. Fel arfer, tynnir y ffin tuag at ochr ansawdd uchel y trawsnewidiad i gynnwys ardaloedd â thir o ansawdd uchel, ac i eithrio ardaloedd â thir o ansawdd is. Gellir defnyddio cysylltiadau gweledol hefyd i helpu i ddiffinio maint y tir i'w gynnwys yn yr amgylchiadau hyn.

Mathau o ffiniau

Lle bynnag y bo modd, dylid dewis nodwedd ffisegol barhaol ar y ffin y gellir ei gwahaniaethu'n hawdd. Dylai ffiniau fod yn glir ac yn ddigamsyniol. Lle mae ffin yn dilyn ffordd, gellir cynnwys ymylon ac argloddiau'r ffordd yn y dynodiad lle maent yn gweddu i'r dirwedd ehangach.

Ffiniau gweinyddol

Lle mae ffiniau llywodraeth leol yn dilyn llinellau addas, efallai y byddai'n gyfleus yn weinyddol i'w mabwysiadu. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, byddant yn anaddas. Nid yw perchnogaeth tir ynddo'i hun yn rheswm dros gynnwys neu beidio â chynnwys tir o ddynodiad. Yn aml, bydd achosion lle mae rhan o dirddaliad o fewn yr ardal ddynodedig a rhan y tu allan iddi.

Cynnwys aneddiadau

Dim ond os ydyw wedi'i leoli o fewn darn ehangach o dir cymwys y dylid cynnwys anheddiad, gan ystyried dylanwad yr anheddiad ar y tir dan sylw. Dylid asesu pob anheddiad yn ôl ei rinweddau unigol, gan ystyried yn benodol ei gymeriad, ei rinweddau a'i berthynas â chefn gwlad cyfagos. Gall y graddau y mae cefn gwlad yn treiddio i'r ardal adeiledig fod yn berthnasol hefyd.

Cyfanrwydd aneddiadau

Fel arfer, ni ddylid rhannu trefi na phentrefi'n ddau gan ffin parc cenedlaethol neu ardal o harddwch neilltuol eithriadol. Nid yw gallu anheddiad i weithredu fel porth i ardal ddynodedig yn ddibynnol ar ei gynnwys gyda dynodiad. Nid yw anheddiad yn cyfateb i ardal cyngor cymuned, ac mae rhannu ardaloedd cyngor cymuned yn dderbyniol wrth lunio ffin.

Datblygiad anghyson

Yn gyffredinol, dylid gwahardd datblygiad anhardd ar ymyl parc cenedlaethol neu ardal o harddwch naturiol eithriadol oni bai ei fod o natur dros dro neu fyrhoedlog.

Wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygu

Fel arfer, ni ddylid cynnwys tir ar gyrion parc cenedlaethol neu ardal o harddwch neilltuol eithriadol a nodwyd mewn cynlluniau datblygu, neu sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau adeiledig mawr (gan gynnwys cloddio am fwynau a dyddodion eraill), mewn parc cenedlaethol neu ardal o harddwch neilltuol eithriadol, oni fydd y tir yn cael ei

ddatblygu neu ei adfer i ddefnydd tir ac ansawdd sy'n cyfrannu at ddibenion y parc neu'r ardal o harddwch neilltuol eithriadol. Ni ellir cynnwys tir dim ond i geisio ei ddiogelu rhag cynigion datblygu cyfreithlon.

Nodweddion o ddiddordeb

Dylid cynnwys ardaloedd a nodweddion o werth bywyd gwyllt, daearegol, geomorffolegol, hanesyddol, diwylliannol neu bensaernïol sydd wedi'u lleoli ar ymylon parc cenedlaethol neu ardal o harddwch neilltuol eithriadol lle bo'n ymarferol, ar yr amod eu bod wedi'u lleoli o fewn darn o dir sy'n bodloni'r meini prawf statudol.

Ffiniau morol

Mewn ardaloedd arfordirol lle mae ffin forol i'w llunio, dylai'r ffin ddilyn y marc distyll cymedr neu ffin y sir yn achos aberoedd.

Confensiynau drafftio cartograffig yn seiliedig ar gyfraith achosion a chanllawiau'r Arolwg Ordnans ar greu ffiniau

- Yn gyffredinol, dylid eithrio prif ffyrdd a rheilffyrdd sy'n ffurfio ffin. Yn gyffredinol, dylid mapio ffiniau i ymyl y briffordd fetlin. Fodd bynnag, lle mae argloddiau neu doriadau, dylid llunio'r ffin ar hyd yr ymyl allanol neu linell y ffens, ac eithrio argloddiau / toriadau.
- Lle mae ffin yn dilyn llwybr bach, lôn dawel neu hawl tramwy, dylid cynnwys y nodweddion hyn.
- Lle mae ffin yn dilyn nodwedd sy'n symud dros amser, gan gynnwys cyrsiau dŵr bach, neu ddyfrnod uchel neu isel cymedr, mae'r ffin wedi'i gosod i'r nodwedd, a bydd yn symud gyda hi os ydyw'n newid oherwydd prosesau naturiol. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw newidiadau dilynol o waith dyn i gwrs dŵr yn arwain at symud y ffin.
- Yn ôl confensiwn yr Arolwg Ordnans, pan ddynodir y nodweddion hyn fel ffiniau, dylid eu marcio 'am y tro' ym mhob achos o fewn disgrifiad y ffin i nodi y gall y ffin symud dros amser wrth i safle'r cwrs dŵr newid.
- Nid yw traphontydd, trosffyrdd, pierau a nenbontydd yn cael eu dosbarthu fel nodweddion daear, ac nid ydynt yn ffurfio nodweddion ffin addas.
- Lle nad oes nodwedd sefydlog ar y ddaear, gellir tynnu ffin mewn llinell syth rhwng dwy nodwedd adnabyddadwy.

Atodiad 2: Ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr – Prif gynllun a darnau manwl o fapiau